



POLISI MEDDYGINIAETH Cylch Meithrin Y Felinheli

Bydd **Cylch Meithrin Y Felinheli** yn sicrhau bod rhieni a gofalmwyr yn ymwybodol o'r polisi hwn drwy y wybodaeth sydd i'w gael yn y llyfryn rhieni, copi o'r polisi ar gael i'w lawrlwytho oddi ar ein gwefan neu drwy ei ddarllen yn y ffeil bolisiau sydd yn cael ei gadw yn y Caban.

Nod

Mae'r Cylch Meithrin yn cydnabod y gall achosion godi pan fydd yn angenrheidiol i roi meddyginiaeth i blentyn tra'i fod/bod yn y Cylch Meithrin. Fodd bynnag, mae gan nifer o blant gyflyrau hir dymor fel asthma, epilepsi a diabetes, neu alergeddau fel alergedd i gnau ac mae angen iddynt allu cael meddyginiaeth ar bob adeg pan fo'i hangen.

Er nad yw'r Cylch Meithrin yn argymhell rhoi meddyginiaeth i blentyn tra'i fod yn y lleoliad oni bai ei fod yn feddyginiaeth ar bresgripsiwn, mae'r Cylch Meithrin yn cydnabod gall rhieni/gofalmwyr/gwarcheidwaid ofyn i'r Cylch Meithrin weinyddu cyffur lleddfu poen e.e. *Calpol* mewn sefyllfaoedd penodol e.e. pan fydd plentyn yn torri dant.

Mae'r Cylch Meithrin yn ymrwmo i sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle sy'n galluogi'r plentyn i dderbyn y feddyginiaeth sydd ei hangen arno/arni, yn unol â Safon 11 y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a reoleiddir ar gyfer plant hyd at 12 oed (2016)¹.

Hawliau Plant

Mae'r polisi hwn yn rhan o sicrhau fod y Cylch Meithrin yn parchu hawliau plant sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, yn benodol:

- Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.
- Erthygl 16: Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu gwarchod rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.
- Erthygl 19: Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u gwarchod rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.
- Erthygl 23: Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.
- Erthygl 24: Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel y gallant gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

¹Safonau 11.1 – 11.8

Cod Ymarfer

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- sicrhau bod ganddynt ganiatâd ysgrifenedig rhiant ar gyfer unrhyw feddyginiaeth maent yn ei roi i blentyn e.e. drwy gwblhau ffurflen M1-17.
- sicrhau derbyn caniatâd ysgrifenedig cyn rhoi unrhyw feddyginiaeth i blentyn e.e. drwy gwblhau ffurflen M1-17.
- sicrhau bod y staff yn ymwybodol o unrhyw sgil effeithiau posibl o unrhyw feddyginiaeth maent yn ei rhoi i blentyn. Dylid nodi na ellir disgwyl i staff roi unrhyw driniaeth na fyddai rhieni heb gymhwyster meddygol yn gallu'i rhoi eu hunain.
- sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei gadw yn y cynhwysydd (potel/blwch) gwreiddiol, wedi'i labelu'n glir gydag enw'r plentyn penodol a'i ddyddiad geni, enw'r feddyginiaeth, cyfarwyddiadau dos, amllder a'r dull gweinyddu.
- storio pob meddyginiaeth mewn man addas, gan ddilyn y cyfarwyddiadau a ddarperir gyda'r feddyginiaeth.
- sicrhau na all plant gyrraedd y feddyginiaeth. Yn ddelfrydol, cedwir unrhyw feddyginiaeth dan glo neu mewn blwch aerglos (*airtight*), wedi ei labelu'n glir, ac nid yn y blwch Cymorth Cyntaf.
- cadw cofnod ysgrifenedig i'r funud o bob meddyginiaeth a weinyddir i blentyn yn ystod y sesiwn.
- rhannu'r cofnod ysgrifenedig gyda'r rhieni gan ofyn iddynt lofnodi i nodi eu bod wedi derbyn y manylion, e.e. drwy nodi'r amser y rhoddwyd unrhyw feddyginiaeth ar ffurflen M1a-17.
- sicrhau bod meddyginiaeth presgripsiwn ond yn cael ei rhoi i'r plentyn y mae'r meddyg wedi'i rhagnodi ar ei gyfer/chyfer.
- sicrhau mai dim ond cyffur lleddfu poen ar gyfer y plentyn penodol, sydd wedi ei ddarparu gan y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid, sy'n cael ei ddefnyddio.
- sicrhau bod unrhyw aelod o staff sy'n fodlon rhoi meddyginiaeth yn derbyn cyfarwyddyd llawn yn y dull cywir o'i weinyddu gan y rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid. Ni ellir gorfodi aelod o staff i roi meddyginiaeth i unrhyw blentyn os nad yw'n dymuno gwneud hynny.
- sicrhau bod hyfforddiant unigol yn cael ei roi gan weithiwr iechyd cymwys os yw gweinyddu meddyginiaeth presgripsiwn yn gofyn am wybodaeth dechnegol neu feddygol, a bod yr hyfforddiant yn benodol i'r plentyn o dan sylw.
- cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw hyfforddiant penodol, gan nodi enw'r hyfforddwr ac enw(au)'r staff a dderbyniodd yr hyfforddiant e.e. drwy ei nodi ar y ffurflen M1-17.
- sicrhau bod plentyn sy'n rhoi meddyginiaeth iddo'i hun e.e. mewnanadlydd (*inhaler*), yn gwneud hynny yn unol â chanllawiau ysgrifenedig y rhiant e.e. drwy gwblhau ffurflen M1-17.
- sicrhau bod plentyn sy'n rhoi meddyginiaeth iddo'i hun e.e. mewnanadlydd, yn cael ei oruchwyllo.
- sicrhau nad yw unrhyw feddyginiaeth a dderbynnir ac a weinyddir yn y Cylch Meithrin wedi dyddio.

Fersiwn 1:3

Hydref 2019

Ceri Rhiannon a Catrin Elis – Personau Cofrestredig : Anneka Williams - Arweinydd y Cylch

Elusen Gofrestredig Rhif 1094577

- gofyn i'r person sy'n dod â'r plentyn i'r lleoliad pryd y rhoddwyd y dos diwethaf o unrhyw feddyginiaeth, gan gadw cofnod ysgrifenedig o'r wybodaeth ar y ffurflen M1a-17.
- sicrhau bod gweithdrefnau'r Cylch Meithrin parthed rhoi meddyginiaethau yn gymeradwy gan yswirwyr y Cylch Meithrin.
- gofyn i rieni gasglu unrhyw feddyginiaeth sy'n cael ei adael yn y Cylch Meithrin ar ddiwedd pob tymor.
- sicrhau gwaredu neu ddinistrio meddyginiaethau sydd wedi dyddio mewn modd cyfrifol a diogel e.e. drwy fynd â meddyginiaethau i'r fferyllfa leol i'w dinistrio.
- sicrhau defnyddio blychau offer miniog (*sharp's boxes*) i waredu unrhyw nodwyddau neu bennau e.e. pennau Epi sy'n cael eu defnyddio yn y lleoliad.
- cadw cofnod ysgrifenedig o'r amgylchiadau/rheswm, enw'r unigolyn, y dull dinistrio/gwaredu, a'r dyddiad gwaredu neu ddinistrio unrhyw feddyginiaeth. Gweler ffurflen M1b-17.

Canllawiau ac Argymhellion

Pa bryd bynnag bo hynny'n bosibl, dylid gofyn i rieni roi meddyginiaeth yn y cartref er mwyn osgoi'r angen i roi'r feddyginiaeth i'r plentyn tra'i fod yn y lleoliad. Fodd bynnag, mae'n rhesymol disgwyl i'r lleoliad wneud trefniadau i roi meddyginiaeth os yw'r rhieni yn dymuno hynny, ar ôl ystyried yn fanwl natur y driniaeth a'r adnoddau sydd ar gael.

Dylai pob meddyginiaeth mewn argyfwng, megis mewnanadlyddion asthma a phennau adrenalin, fod yn gwbl hygyrch i staff.

Dylid gofyn i rieni arwyddo'r cofnod i'w gydnabod. Dylid cofnodi manylion yr union amser y rhoddwyd y feddyginiaeth gyfredol ddiweddaraf i'r plentyn.

Mathau o Feddyginiaeth

Argymhellir y gall y lleoliad gytuno i roi'r mathau canlynol o feddyginiaethau, os dilynir y canllawiau uchod.

- hylif /surop.
- hufen trofannol / eli / golchdrwyth (*lotion*), gan gynnwys diferion llygad neu glust.
- teclyn mewnanadlu, gyda neu heb gymorth teclyn gwahanu neu atodyn mwgwd arbennig ar gyfer plant bach. Ceir gwybodaeth am y teclynnau mewnanadlu amrywiol gan y 'National Asthma Campaign'.
- Argymhellir na ddylai staff gytuno i roi'r mathau canlynol o feddyginiaethau, oni ellir gwneud trefniadau i sicrhau bod rhywun â chymhwyster nyrsio neu feddygol yn bresennol:
- tabledi / capsïwlau
- pesariau a thawddgyffuriau (*suppositories*)
- pigïadau.



Gall lleoliadau gael yswiriant i roi pennau epinephrine / Epi os yw'r staff wedi cael hyfforddiant i wneud hynny a'u bod yn dilyn protocol clir.

Mewn rhai amgylchiadau megis wrth roi diazepam trwy'r rectwm, mae'n hanfodol trefnu bod oedolyn arall yn dyst i'r ddos a'r gweinyddu.

Os oes unrhyw amheuaeth, ni ddylai'r staff roi unrhyw feddyginiaeth ond dylid gwirio gyda'r rhieni neu weithiwr iechyd proffesiynol cyn cymryd camau pellach.

Polisiâu Cysylltiedig

- Polisi Amddiffyn Plant
- Polisi Cyfrinachedd a Diogelu Data
- Polisi Cyfle Cyfartal
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Cysylltiadau a Gwybodaeth Ddefnyddiol

Awgrymir cyfeirio at y cyhoeddiadau a'r gwefannau isod am fwy o wybodaeth:

Dogfen Briffio Iechyd a Diogelwch yr NUT 'Administration of Medicines'

<https://www.teachers.org.uk/help-and-advice/health-and-safety/a/administration-medicines>

Asthma UK <https://www.asthma.org.uk/>

Dogfen Briffio Iechyd a Diogelwch yr NUT 'Asthma in Schools'

<https://www.teachers.org.uk/help-and-advice/health-and-safety/a/asthma-in-schools>

Dogfen Briffio Iechyd a Diogelwch yr NUT 'Epilepsy in Schools'

<https://www.teachers.org.uk/help-and-advice/health-and-safety/e/epilepsy-schools>

Diabetes UK 'Diabetes in schools - information for teachers & staff'

<https://www.diabetes.org.uk/Guide-to-diabetes/Your-child-and-diabetes/Schools/School-staff/>

Medicines for Children: gwybodaeth am sawl meddyginiaeth sy'n cael eu rhagnodi i blant.

Gwefan yn cael ei darparu gan Royal College of Paediatrics and Child Health (RCPCH), the Neonatal and Paediatric Pharmacists Group (NPPG) and WellChild

<http://www.medicinesforchildren.org.uk/>

DfES & DoH 'Managing medicines in Schools and Early Years Settings (2005)'

<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130401151715/http://www.education.gov.uk/publications/eOrderingDownload/Managing%20Medicines%20Nov%2007%20version.pdf>



CAIS I ROI MEDDYGINIAETH I BLENTYN

(i'w llenwi gan y rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)

REQUEST TO ADMINISTER MEDICATION TO A CHILD

(to be completed gy the parent/guardian/carer)

Enw'r lleoliad / <i>Setting Name:</i>	
Enw'r plentyn / <i>Child's Name:</i>	
Cyfeiriad / <i>Address:</i>	
Dyddiad geni / <i>Date of Birth:</i>	
Salwch neu gyflwr / <i>Illness or Condition:</i>	
Enw/math o feddyginiaeth (gweler y botel/blwch) / <i>Name/type of medication (see bottle or box):</i>	
Am ba hyd fydd eich plentyn ar y feddyginiaeth? / <i>For how long will your child be taking the medication?:</i>	
Dyddiad dechrau'r feddyginiaeth / <i>Date to begin taking the medication:</i>	
Cyfarwyddiadau / <i>Instructions:</i>	
Maint y ddos / <i>Dosage amount:</i>	
Amseriad / <i>Timings:</i>	
Dull o roi'r feddyginiaeth / <i>Method of administering the medication:</i>	
Gofynion arbennig / <i>Special requirements:</i>	
Sgîl effeithiau / <i>Side effects:</i>	
Trefniadau mewn argyfwng / <i>Emergency procedures:</i>	
Enw, cyfeiriad a rhif ffôn person cyswllt mewn argyfwng / <i>Name, address and phone number of emergency contact:</i>	
Perthynas i'r plentyn / <i>Relationship to the child:</i>	
Rwy'n rhoi caniatâd i aelod o staff Cylch Meithrin Y Felinheli roi'r feddyginiaeth uchod i: _____ (enw'r plentyn).	
<i>I give permission for a member of Cylch Meithrin Y Felinheli staff to administer the medication listed above to: _____ (child's name).</i>	
Rwy'n deall y bydd yn rhaid i mi roi'r feddyginiaeth yn bersonol i'r Arweinydd , gan roi gwybod ar unwaith os oes unrhyw newid yn y wybodaeth uchod.	



*I understand that the medication must be given directly to the **Leader**, and I will inform the staff immediately of any changes to the information provided.*

Tystiaf fod / *I certify that* _____ (enw aelod o staff y lleoliad / *staff name*) wedi derbyn cyfarwyddiadau/ hyfforddiant ar sut i roi'r feddyginiaeth i'r plentyn hwn. / *has received instructions / training on how to administer this medication to this child.*

Manylion y rhiant/gofalwr/gwarcheidwad / *Parent/carer/guardian details:*

Enw/*Name:*

Llofnod/*Signature:*

Dyddiad/*Date:*

Manylion yr aelod o staff /*Staff details:*

Enw/*Name:*

Llofnod/*Signature:*

Dyddiad/*Date:*

**** Nid oes rheidrwydd ar y lleoliad i ddarparu'r gwasanaeth hwn, ac ni all y lleoliad warantu cyfarfod â gofynion y driniaeth pe bai amgylchiadau annisgwyl neu anawsterau'n codi, ac ni ellir ystyried y lleoliad yn atebol am unrhyw ddiffygion yn y driniaeth ****

****The setting is not obliged to provide this service, and the setting cannot guarantee it can meet the treatment's requirements if unexpected circumstances prevail, and the setting cannot be held liable for any failings in the treatment ****



ADRODDIAD AR WEINYDDU MEDDYGINIAETH
REPORT ON ADMINISTERING MEDICATION

**** Mae angen cadw'r ffurflen hon yn ddiogel yn y lleoliad gyda ffurflen M1-17 a'i chwblhau bob tro y rhoddir meddyginiaeth i'r plentyn a enwir isod ****

**** This form should be kept safely in the setting with the M1-17 form and completed every time the child named below is given medication. ****

Dylid cwblhau dau gopi o'r ffurflen hon, un i'w gadw yn y lleoliad a'r llall i'w drosglwyddo i'r rhieni ar ddiwedd y dydd

Two copies of this form should be completed, one to be kept in the setting and the other given to the parents at the end of the day

Enw'r lleoliad / Name of Setting: _____

Enw'r plentyn / Child's name: _____

Salwch neu gyflwr / Illness or condition: _____

Enw/math o feddyginiaeth (gweler y botel/blwch) / Name or type of medication (see bottle/box):

Cyfarwyddiadau / Instructions:

Amser y rhoddwyd y dos diwethaf / Time the last dose was given: _____

Enw'r a llofnod y rhiant / Parent's name and signature: _____

Dyddiad / Date: _____



DYDDIAD DATE	AMSER Y DYLLID RHOI'R FEDDYGINIAETH TIME MEDICATION TO BE ADMINISTERED	AMSER Y RHODDWDYD Y FEDDYGINIAETH TIME MEDICATION ADMINISTERED	ENW A LLOFNOD Y PERSON A RODDODD Y DOS NAME AND SIGNATURE OF PERSON WHO ADMINISTERED THE DOSE



M1b-17

COFNOD GWAREDU MEDDYGINIAETH
RECORD OF DISPOSAL OF MEDICATION

DYDDIAD DATE	ENW'R FEDDYGINIAETH NAME OF MEDICATION	SUT Y GWAREDWYD HOW DISPOSED	RHESWN DROS WAREDU REASON FOR DISPOSAL	PWY WAREDODD Y FEDDYGINIAETH WHO DISPOSED THE MEDICATION